

bonsang [*bôn*¹ + *sang*¹] *eg. b. ll. bonsangau.*

(a) Sail, sylfaen, pedestal; gwreiddyn; balast; hefyd yn *ffig.*: *foundation, base, pedestal; root; ballast; also fig.*

1604–7 *TW* (*Pen* 228), gwneuthur *bonsang* d.g. *Fundo. id. bonsang* lhong or graean yw gwneuthur yn dhiysgogach d.g. *Heana. 1770 W* d.g. *Base or basis [foundation], Pedestal [the basis of a pillar, of a statue, &c.]. 1793 P, Bonsang*, s. f.—pl. t. *au* . . . A foundation. **1866** *Gwyddon* v. 176, Gwallt . . . Y mae *bon-/sang* pob blewyn mewn gwain dyner. **1877** *id.* ix. 433, Ar *fonsangau* pedair o'r colofnau a ddadorchuddiwyd . . . cafwyd ysgrifau cerfiedig.

(b) Pwnc, dadl: *subject, argument.*

1604–7 *TW* (*Pen* 228), Argument ne *vonsang* lhiuer Araith, ne'r poetri, ne Brydydhiaeth d.g. *Materia. id. y bonsang* dros yr atcyssyltedic [*sic*], ne'n y gwrthwyneb d.g. *Metonymia.*

(c) Tawddgyffur (i'r rectwm): (*rectal*) *suppository.*

1604–7 *TW* (*Pen* 228), *bonsang*, *tinsang* . . . a wthier yn yr eistedhle y rydhau'r bola, nei beri maesa d.g. *Glans* . . . *suppositori.*

bonsangus [*bonsang*+*-us*] *a.* Sylfaenol, hanfodol: *fundamental, basic.*

1595 *Egl Ph* 10, pan roddir ar ymadrodd . . . enw priod rhyw beth sylwedhawl, neu *bhonsaghus*, i arwydhocau rhyw beth darymsodhawl. *id.* 14, pan gybbleuir y dharymsawdh dros y sylbhon *bhonsaghus*. **1793** *P, Bonsangus* . . . Fundamental. **1888** *SE, Bonsangus* . . . fundamental; basal.

bonsia, bonsiaf [*bnth. S. boneshaw, boneshave*] *eg.* Clunwst, cymalwst: *sciatica, arthritis.*

16g. *GGH* 435, Credo nid cywir ydoedd, / Un boen sŵn wayw *bonsia* oedd. *Div. 16g. WLB* 59, Rhag y *Bonsiaf*. Kymer lawer o'r malwod duon ar greulys fawr ai briwo yn fân mewn mortar. *id.* 76, Rhag y *Bonsiaf*. Kymer ffederffoy a baom . . . ac stompia hwynt.

Gw. hefyd gwayw—gwayw **bonsia.**

bonsyg [*bôn*¹ + *syg*] *eb. ll. bonsygau, bonsygiau.* Cadwyn neu dres wrth fôn yr aradr sy'n ei chydio wrth y wedd: *plough chain.*

1753 *TR*, Sŷg, a chain. *Bon-syg*, the chain which extends from the ploughbeam to the yoke. **1771** *W* d.g. *Chain, A plough-chain.* **1793** *P, Bonsyg*, s. f.—pl. t. *au* . . . A plough chain.

bônt, gw. wyf: bod.

bontin [*bôn*¹ + *tin*; dichon fod enghrau. treigledig o *montin* wedi eu cynnwys yma] *eb. ll. bontinau.* Boch tin, tin, pen ôl; y rhan o gorff anifail, &c., lle mae'r gynffon yn cysylltu â'r corff, pedrain, crwper; tindres: *buttock, buttocks, bottom; rump, haunch,*

crupper; breeching.

15g. *GGL*² 93, Nid cyfan achlân uwch ei lin—a'i gorff / Nac arffed, na *bontin* [dychan i Ieuan ap Tudur Penllyn]. **16–17g.** *GST* i. 524, Milrhith tebyg i'r moelrhon, / Bentan sain, yw *bontin* Siôn [Siôn Phylip am Siôn Tudur]. *Dchr.* **17g.** *ƒ* 10, 140a, *Bontin*, Os sacrum. c. **1624** *CRC* 133, a *bontin* fras vwch i bagas / kyfled i thin a maen melin [dychan i ferch]. **1632** *D* d.g. *Nates*. **1688** *Tƒ*, Ffolen, *bontin*. A buttock or haunch. **1716–18** *Llsg*r R. *Morris* 42, Ped fae yn i *fontin* yr hoelion yn finta / a yrrodd fy mwrthwl erioed ai fawr wrtha. **1771** *W* d.g. *Breech*, *Bum*, *Buttock*, *Rump*. **1808** *TWM* o'r *NANT*: *BB* 15, 'R oedd raid myn'd yn union, at 'Overseer' y tlodion, / . . . / Dyna fynte 'n troi *fontin*, tan ddiawlio yn erwin, / A rhegi 'r tlodion, a'r trethu trymion. **1888** *SE*, *Bontin*, -au, sf. 1. the buttock or buttocks; the rump. 2. the crupper (of a horse). 3. the breeching of a harness.—Meirion. **1916** *Cymru* l. 258, canfyddwn aderyn . . . gyda *bontin* glaerwen, yn croesi fy llwybr draw.

Gw. hefyd **montin**.

bontinog [*bontin*+*-og*] *a*. A chanddo ben ôl mawr, tinfawr, tindrwm, byrdew, tew (hefyd yn *ffig.*); a chanddo fontin fawr (am aderyn): *large-buttocked*, *big-bottomed*, *heavy-bottomed*, *squat*, *fat*, also *fig.*; *having a large rump (of a bird)*.

16g. *WILLIAM LLŶN*: *Gw* (R. Stephens) 568, O daw Owain dan dewi, / Mal y daw i'm ymlid i, / Bwriaf fardd, byr yw efo, / *Bontinog*, â'i ben tano. **16–17g.** *GST* i. 806, Cael tri o weision cyflog, / A dwy forwyn *fontinog*. **1617** *Minsheu* 58b d.g. a *Buttocke* . . . *that hath great Buttockes*. **1766** *Traeth* lxi. 310, pregethem ammynedd i Dailiwr wynebgaled. . . neu grydd *bontinog*, pan holent ni am arian. c. **1770** *LIGC* 352, 49, Ond gwych y daeth balchder Enwog / In hyfforddi an lloni yn lliniog / yr yden ni rwan hyd y fro / n' wyr tynion gô *fontinog*. **1771** *W* d.g. *Buttock*, *Large buttocked*, *Hopper-ars'd*. **1793** *P*, *Bontinawg* . . . Large buttocked; squabby. **1862–3** *Y Brython* v. 470, Pan welodd Sion yr hwch mor foliog, / Ac oddi tani mor *fontinog*.

bontrwm, gw. **bondrwm**.

bonwen, gw. **bonwyn**.

bonwes, gw. **mynwes**.

bonwm, **bonwn** [*bôn*¹+elf. anh.] *eg.* ll. *bonymau*, *bonynnau*. Boncyff (coeden), weithiau'n *ffig.* ac yn ddifr.; *bôn* neu garn (rhywbeth); boch tin: *stump or trunk (of a tree)*, *sometimes fig. and derog.*; *shaft or butt end; buttock*.

15g. *GGL*² 314, Troi blaen gwayw graen o'i grwm, / Tua'i fwnwgl, tew *fonwm*. *Dchr.* **17g.** *ƒ* 10, 140a, *Bonwm*, *Buttocke*. **1632** *D*, *Bonwm*, *Caudex*. **1753** *TR*, *Bonwm*, the stump of a tree, the butt-/end of a thing. c. **1760** *Gron* 127, Twm Siôn Twm *bonwm* a'i bar / Twm Siôn Twm gidwm a'i gêr. **1775** *WM*: *PGG* 206, Beth wyf fi heb râs ond cyff sych a *bonwm* (**1723** *id.* 256, *Bonyn*) crinllid, ac yn gymmwys i

Proflen hir set 030ixb tudalen 3 4 Tachwedd 2011 14:20

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]
FFEL: TOR/030ixb.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

ddim, ond i'm bwrw i'r tân? **1794** *W* d.g. *Stub or stump*. **1888** *SE*, *Bonwm*, *ymau*, sm. the stump of a tree; a stock to graft upon; a stump, stock, or block. *ib.* *Bonwn*, *ynau*, sm. = *Bonwm*. Digwydd (*Plas yn*) *Bonwm* yn enw ar fferm ger Corwen, Meir.

bonwr [*bon(edd) + -wr*; ansicr yw ystyr yr ail engh.] *eg.* ll. *bonwyr*. Teitl o gwrteisi a roddir o flaen cyfenw neu enw llawn dyn, Mr, mister; gŵr bonheddig: *Mr*; *gentleman*.

1603 *RWM* i. 599, *bonwr* gwych benn ar i gwaith. *c.* **1730** *Thos. Lloyd D* (LIGC) 163b, Llochwr a *bonwr* triban. **1875** *BAC*, 12 Mehefin, 7, y mae *Bonwyr* Rooke, Parry, a'u Cyf. yn anfon llong fasnachol yn ol a blaen o Buenos Ayres i'r Wladfa. **1914** *Traeth* lxix. 348, Methai *bonwr* o Sais, ddeuai i Feddgelert yn yr haf . . . a deall paham yr oedd y bobl yn wyllo a gwenu yr un pryd.

Gw. hefyd **Bnr**.

bonws¹ [*bôn*¹ + *-ws*¹; ansicr yw'r engh. gyntaf] *eg.* Tin, rhefr: *arse*, *rectum*.

c. **1400** *R* 1339. 11, bonryff *bonws* [diwyg.] kyff kyffeith vn mal. *id.* 1339. 23, grud lóyt *bonws* mós meysfein wemral.

bonws² [bnth. S. *bonus*] *eg.* ll. *bonysau*, *bonysiau*, *bonysys*, *bonwsys*. Swm o arian a delir yn ychwanegol at y gyfradd sylfaenol (am gyflog, taliad, &c.), tâl dros ben, mantais ychwanegol ac annisgwyl: *bonus*.

1925. **1979** *Y Faner*, 27 Gorffennaf, 14, teimlad braf a boddhaus wrth ddal y corff bach cynnes mewn rhyw agosatrwydd dihafal [wrth fwydo o'r fron] gyda'r *bonws* ychwanegol o gael cyfle i ymlacio.

bonwyn [*bôn*¹ + *gwyn*] *a.* (b. *bonwen*). A chanddo wreiddyn, *bôn*, coesyn, neu foncyff gwyn: *having a white root, base, stem, or trunk*.

13g. *LII* 96, Guerth gualt *bonwyn*, keynnyauc am pob bys o'r a el endau y'u gnythyau. **13g.** *LTWL* 219, traxerit per capillos et fecerit gualt *bonwyn*. **14g.** *LIB* 57, a cheinhawc dros pob blewyn *bonwyn* a tynher o'e pen. *c.* **1400** *SDR*² 45, gwneuthur gwallt melyn yn *uonwyn* briwedic. **15g.** *GDLI* 83, Y fedwen *fonwen*, fanwallt, / Eglur wyt o gil yr allt. **1753** *TR*, *Bonwyn*, K.H. from *Bôn* and *Gwyn*, i.e. having a white root. *Dicitur de crinibus radicitus evulsis*. **19g.** *Bl Engl* 34, Y wydn nyddol fedwen addas— *fonwen* / O dan fanwallt briglas. **1888** *SE*, *Bonwyn*, m. *Bonwen*, f. . . having a white stem; white at the base; having a white root.

bonyn, gw. **bôn**¹.

***boog**, gw. **rhuddfaog**.

Booriaid, gw. **Boëriad**.

bopa, gw. **boba**.

bopo, gw. **popo**¹.

bôr [bnth. S. *bore* 'boring person'] *eg.* ll. *bôrs*. Un y mae ei sgwrs neu ei ymddygiad yn ddiflas a syrffedus: *a bore (boring person)*.
1991.

boracs [bnth. S. *borax*] *eg.* *Cem.* Mwyn a'r cyfansoddyn gwyn crisialaidd hydawdd a geir ohono ac a ddefnyddir at amryw o ddibenion (e.e. gwneud gwydr a serameg, fel toddydd metelegol wrth sodro, yn y diwydiant bwyd, i olchi ac ymolchi, ac fel pryfleiddiad ac antiseptig) ac sy'n digwydd ar sawl ffurf, yn enw. sodiwm borad hydradol, $\text{Na}_2\text{B}_4\text{O}_7 \cdot 10\text{H}_2\text{O}$, halas: *borax (in chem.)*.

1851 *Addysg Chambers* i. 333, Y mae *boracs* ei hun, pan ei poethir, yn toddi yn wydr perffaith glir. **1852** *EWD* i., *boracs* = math o ddelid neu ddefnydd fferyllaidd, arferedig yn benaf i asio meteloedd d.g. *Borax*. **1864** *Golud yr Oes* ii. 165, I Lanhau y Pen.—Cymerer owns o *boracs*, haner owns o gamphor—y naill a'r llall wedi eu malu yn fân a thodder hwy mewn chwart o ddwfr berwedig.

Gw. hefyd **boras**.

boraes, boraets [bnth. S. *borage*] *eg.* *Bot.* Planhigyn llysieuol o'r tylwyth *Borago* ac iddo flodau glas disglair a dail blewog: *borage*.

c. **1400** *Études* vii. 276, Rac y crangk: kymer *borays* a phybyr a briw y gyt. *id.* 278, kymer anys, a hat y ffenigyl, a blodeu y violet, a blodeu y *borays*. **1604–7** *TW* (*Pen* 228), y Bugloss, ne'r *Boraets* gwylht d.g. *Viperina*.

boras [bnth. S. *borace, borras*, ff. ar *borax*, cf. *boracs*] *e.* *Cem.* Boracs, halas: *borax (in chem.)*.

1851 *Addysg Chambers* i. 407, *Boras*. Mae yr halas yma i'w gael yn naturiol . . . yn Mhersia a Thibet. **1852** *EWD* i., halan *boras* d.g. *Borate*. *id.* d.g. *Borax*.

Gw. hefyd **boracs**.

borau, gw. **bore**.

bord, bort, bôrd¹ [bnth. H. S. *bord* a S. Diw. *board*] *eb.g.* (bach. g. *bordyn*, b. *borden, bordan*, ll. *bordanau*) ll. *bordau, bordiau, bordydd*.

(a) Bwrdd, yn enw. un â bwyd wedi ei osod arno, yn *ffig.* bwyd a diod, lletygarwch, cynhaliaeth; bwrdd y trafodir busnes wrtho: *table, esp. one laid with food, fig. food and drink, hospitality, sustenance; table at which business is transacted*.

14g. *WM* 19. 30–2, kyðeiryaó y neuad aónaethpóyt ac yr *bordeu* yd aethant. *id.* 443. 27–9, dóyn gyt ac ef oe hanuod yr *uort* (*id.* td. 222. 15, yr bôrd) ac erchi idi uóyta yn uynych. **14g.** *GIG* 7,

Annwyl fydd gan wŷr Leinort, / Aml ei feirdd, a mawl i'w fort. **15g.** GLGC 276, A llyn a bwyd yn llanw bort. **1551** W. SALESBURY: *KLI* lxxxxa, yn eistedd gyd ac ef wrth y vort. **1567** TN 119a, Paam . . . na roddy't vy arian i'r vord [-: yn y banc, at yr arianwyr]? *id.* 199a, e' osodes vort [-: vwy't] geyr ei bron. **1632** D, *Bord*, Mensa, tabula. **1756** ML i. 405, rhaid iddo fod yn gyfan gwbl i gael ei hoeliaw ar y fagwyr wrth fy mord yn y dollfa. **1794** W, *Bordan*, bord fechan d.g. *Table* [a piece of furniture used for meals, &c.] . . . A little [small] table. [**1862**] IEUAN GLAN GEIRIONYDD: *G* 122, Och foneddion, mewn gwychaf neuaddau, / A'u bordiau 'n sigawl â brydion seigiau. **1888** SE, *Bordan*, -au, sf. . . a small table. Ar lafar, 'bord' 'table', LGW 155 (y De); 'yn wastad fel y ford' (canolbarth a godre Cered.; ll. *bordydd*); 'bord' 'table', SC vi. 107 (sir Benf.; ll. *bordydd*); 'Odd bord y gecin yn llawn o lestri brwnt', 'Ishta wth y ford', GTN 84 (ll. *byrdydd*).

(b) Ochr (llong): *side (of a ship)*.

14g. GIG 147, Ffriwuchel wrach, fingrach fort, / Ffroengau, ystrodur firwyngort [i'r llong]. **15g.** GWILYM TEW: *Gw* 457, Gan wynt gollyngynt llongau—o aliwns, / I weled dy fordau; / Ystwffl—i'th ynys y dël, / Ac enw Derfel gan d'arfau.

(c) Darn tenau gwastad o bren, plastig, cardfwrdd, neu ddeunydd stiff arall, a ddefnyddir at wahanol ddibenion, e.e. borden ar gyfer torri llysiau, &c., bwrdd du, bwrdd syrffio, sgertin, astell (ar gyfer cludo corff): *board for various purposes, e.g. chopping board, blackboard, surfboard, skirting board, plank (for carrying a body)*.

1834. [**1912**] E. T. DAVIES: *HT* 82, pan oedd hi [athrawes] yn y cwpwr yn nol chôc i sgwenu ar y bôrd. **1995** GA, *bordyn* . . . S[outh]: *borden* d.g. *board* . . . = *piece of wood*. Ar lafar, 'Borden' 'ystyllen', 'Bum mewn ffwdan yn ei gosod ar y forden' 'troi'r marw heibio', *Cymru* xxxix. 27 (godre Cered.); 'borden' 'darn o bren mawr, crwn . . . Byddid yn llunio torthau bara neu yn rolo bara ceirch arno', *Geir Geg* 122 (Brych.); 'Mesurodd William y corff a nodi'r mesur yn y llifir bach a gida help y gwas rhowd y corff ar y forden', *Wês wês* 29; 'bordan' 'bwrdd hysbysu', GTN 84 (ll. *borda*). Digwydd yn y diwydiant mwyngloddio yn y ff. 'bord' 'a wide workplace in a mine', *LIGC* 1134, 14; a hefyd yn y ff. 'borden' i olygu 'trwch o lo isradd a ddisgynnai o'r ffas gyda'r glo iawn', *Geir Glo* 52 (Rhydaman).

Amr.: **bordd** [dan ddyl. *bwrdd*]. *c.* **1400** *Rec C* 65, *Tirbord*. **1567** TN 335b, O blegid y Tabernacl oedd wedi y gwneuthyd y gyntaf, yn yr hwn y roedd y canwyllbren, a'r *bordd*, ar bara dangos. **1615** R. SMYTH: *GB* 121-2, oddyno y mae i *borddau* costys a gyflavnnvyd a chymeint o fvvydydd mvvythys. **1684** H. OWEN: *DC* 420, [d]wy *fordd*, gwedi eu gosod ymma ac accw, yn Nhryssordy'r Eglwys lân.

Cfn.: **bord yr allor:** *altar-table, communion table*. **1618** J. SALISBURY: *EH* 106-7, a'i arlwyo [bara] i ni ar *fordh* yr *Alhor* trwy law'r Offeiriad. **1684** H. OWEN: *DC* 420, *bordd yr Allor* fendigedic, a'r bara sacredic arni. **1772** W, *Bord yr allor* d.g. *Communion-table*. **bord yr Arglwydd:** *the Lord's table*. **1567** TN 254a, Ny ellwch vot yn gyfranogion o vord

[:- bwrdd] yr *Arglwydd*, ac o vord y cythreulieit. **1672** R. PRICHARD: *Gw* 248, Pob rhyw Gristion ag y garo, / Ddyscu 'r môdd y mae ymgweirio, / Mynd yn lân i *ford* yr *Arglwydd*, / Dysced hyn o werseu'n ebrwydd. **1739** T. BADDY: *PCh* 16, ymgadwasant yn hir oddiwrth *ford* yr *Arglwydd*. **1862** *Yr Haul* vi. 151, na ryfyo efe er dim ddyfod i *Ford* yr *Arglwydd*, hyd oni ddadgano efe yn gyhoeddus ei fod yn wir edifeiriol. **bord armerth**: *kneading table*. Ar lafar, 'bord armerth' 'a peculiar kind of table to knead dough upon', *TGG* (1906) 9 (Morg.); 'bord armerth' 'bwrdd teir ochrog, pwrpasol i dylino toes arni', *Geir Geg* 121 (dwyrain Morg.). **bord fwyd**: *a dining table*. **1632** *D*, *Bord fwyd* d.g. *Mensa*. **1995** *GA*, *bord fwyd* d.g. *table* . . . *dining-table*. Ar lafar, 'bord fwyd' 'y ford hirsgwar yr eisteddai'r gweision a'r morwynion wrthi i gael eu prydau bwyd', *Geir Geg* 121 (y De). **bord garreg**: *stone table for salting*. Ar lafar, 'bord garreg' 'math o gafn bas y byddid yn halltu cig moch ynddo ac a leolid yn y llaethdy', *Geir Geg* 121 (sir Gaerf. a Morg.); 'y vord garrag' 'the stone table used in a pantry', *GTN* 84. **bord Crist**: *the Lord's table*. **1672** R. PRICHARD: *Gw* 253, Gwachel ddwad yn ddigofus, / I *ford* *Christ* mewn llid a malis. **bord gron, bord grwn**: *round table (esp. one used for dining)*. **1814**. **1904** ELUNED: *DA* 12, Yn y gongl fwyaf cysgodol yr oedd genyf *ford gron* a chanwyll wêr mewn canwyllbren. **1931** H. EVANS: *CE* 46, Cofier . . . nad oedd y bwyd a osodid ar y *ford gron* o flaen y tân ond ychydig iawn yn well ar ddyfodiad cyntaf Meistr a Meistres. Ar lafar, 'bord gron' 'y ford gron yr eisteddai'r teulu wrthi i fwyta eu prydau bwyd gynt', *Geir Geg* 121 (y De); 'bord grwn' 'a round table', *GTN* 84. **Chwedl. y Ford Gron, Bord Gron**: (*the Round Table (in Arthurian mythology)*). c. **1400** *YSG* [1], y gyt ac ef [Arthur] yd oedynt o vilwyr y *Vort Gronn* dec a deugeint a chant. **15g.** *GLGC* 270, A mi yn nhref Gaerllion / deg ar Wysg, lle bu'r *Ford Gron*. **16g.** *Llst* 6, 141, *bord gron* gaerllion ay lly / ny thalai hon ay thayly. **1740** T. EVANS: *DPO* 131, efe [Arthur] oedd y cyntaf a ddyfeisiodd y *Ford gron*. Yr oedd Y *Ford Gron* yn enw ar gylchgronau yn UDA (1867) a Chymru (1930–5). Digwydd hefyd fel teitl canghennau Cymru o'r mudiad elusennol rhyngwladol 'The Round Table'. **bord grwn**, gw. *bord gron*. **bord gyfrif**: *counting-table, abacus*. **1604–7** *TW* (*Pen* 228), *bord gyfrif*, Cyfryw vn ag y mae'r mesûrwyr tir ar Astronomieit yn ei harver d.g. *Abacus*. **1632** *D*, Rhif-lech, *bord gyfrif* d.g. *Abacus*. *id.* *Bord gyfrif* y newidwyr arian d.g. *Trapeza*. **1772** *W* d.g. *Counting-table*. **bord golchi**: *washboard*. Ar lafar, 'bord golchi', *Folk Life* xix. 46 (y Gogledd); 'borden olchi', *ib.* (y De). **bord dâl**: *high table*. **15g.** *GHC* 3, Gwael fydd ei barth a'r gwely / A *bord dâl* heb w'r y tŷ. **1995** *GA*, Lit[erary]: occ[asionally]: *bord dâl (bordydd iâl)* d.g. *table* . . . *high table*.

Gw. hefyd bwrdd.

bôrd¹, gw. *bord*.

bôrd² [bnth. S. *bored* 'wearied'] *a.*, fel arfer yn gwrthsefyll treiglo. Wedi diflasu neu syrffedu, diflas, diflasedig: *bored*.

1993. Ar lafar yn gyff.

bordaf: bordo, gw. *bordiaf: bordio*.

bordaid, bordiaid [*bord*+*-aid*¹, *-iaid*²] *eb.* ll. *bordeidiau, bordeidi.* Llond bwrdd; cwmni wrth fwrdd: *tableful; company at a table.*

15g. *GHS* 34, Claredwin Gasgwin o'r gwŷdd,—gwin Bwrddios / I gan *bordaid* (*HS* 12, *bordiaid*) beunydd. **1794** *W*, y *fordaid* d.g. *Table* [*the company fitting at it*]. **1888** *SE*, *Bordaid, eidiau*, sf. a tableful; a table. **1939** *Ll* xviii. 137, Caiff agor ei sgrepan ar ford Beca Moses / I Beca gael bodio'r holl *fordaid* fraith [T. J. Morgan i'r Pacman]. Ar lafar, "Odd *bordid* o dishenon yno'n barod i'r teparti", *GTN* 85 (ll. *bordidi*).

bordais, gw. *bwrtais*.

bordan, gw. *bord*.

bordar, gw. *bordor*.

borden, gw. *bord*.

border, gw. *bordor*.

borderaf: borderu, gw. **bordoraf: bordori**.

borderiaf: borderio, gw. **bordoraf: bordori**.

bordiaf, bordaf: bordio, bordo [bf. o'r e. *bord*, &c., neu fnth. S. (*to*) *board*] *bg.a.*

(a) Cyflenwi (rhywun) â phrydau bwyd a llety, byw a chael prydau bwyd rheolaidd (mewn llety), hefyd yn *ffig.*: *to board, provide (someone) with meals and accomodation, live and receive regular meals (in lodgings), also fig.*

c. **1730** *Taith C* 126, Yr oedd efe yn eu *Bordo* hwy (*boarded them*) wrth y flwyddyn. **1732** *AABI* 64, Anrhydedd yw . . . a welyiff ac a *fordiff* (*that will bed and board*) gyd â Dŷn, a erys gydâ Dŷn. **1858** *EWD* ii., *bordio* d.g. *Table*, v.

(b) Gorchuddio ag ystyllod, byrddio: *to cover with boards, board.*

1852 *EWD* i., *bordio* d.g. *Cover*, v. a., *To cover with boards.* Ar lafar yn gyff.

(c) Mynd ar fwrdd (llong, &c.): *to get on board (a ship, &c.).*

2005.

Amr.: **bordriaf': bordrio** [?dan ddyl. S. *boarder*]. **1716–18** *Llsg R. Morris* 22, Roedd gwr ai blant yn *bordrio* / I gid ar i gost yn tarrio.

bordiaid, gw. *bordaid*.

bordir, gw. *bordor*.

bordor, border, bordr, &c. [bnth. S.

border a'r S. neu'r Ffr. *bordure* (mewn her.); ansicr yw'r ail engh. yn adran (a)]
eg.b. ll. *bordorau*, *bordors*, *borderi*,
borderydd, *borderau*.

(a) Ffin, terfyn, goror, cyffindir; sribed addurniadol, &c., o amgylch ymyl rhywbeth; sribed o dir ar hyd ymyl gardd ar gyfer plannu blodau, &c.; hefyd yn ffig.: *border*, *boundary*, *march*, *borderland*; *decorative*, &c., *strip around the edge of something*; *strip of land along the edge of a garden for planting flowers*, &c.; also fig.

15g. NBSF 89, pob ysmonaeth a wnaethon / ar dir hardd y *fordor* hon (Huw Pennant). 15g. TUDUR PENLLYN, &c.: *Gw* 89, na ddyro *mordar* (amr. *mordor*) Alun / y tir gad ef yt dy hun / nath lus nid gwaith elusen / y gwr coch nag y wraig hen. 1547 *WS*, *Bordyr* Border. 16g. (LLEG) *Mos* 158, 231a, kadw y *bordorau* ynn erbyn y ffranckod. 16g. *B* x. 289, Dgiunw, yr hon etto ydoedd heb ymado a'r *bordor*. 16g. *WLI* 196, Blodau ir ar blad araul / Brodio rhos mewn *bordr* o haul. 17g. *IICRC* iii. 264, ag na ddoed y krythor / ar ol hynn iw *bordor*. 1688 *Tŷ*, Ael, (hem, *bordor*). an hem, a border. 1752 H. LLOYD: *H* 13, I Enw parchedig yr Jesu bo'r clôd, / Am feddwl o'i galon in hachub erjôd, / Pan oeddem elynion a chwbl ddirâs; / Ar *forder* trieni [*sic*] fe'n ceisiodd fe'n cas. 18-19g. *GABC* 162, Lliw gwaed y coch for fel *bordor* sy' bur-dan. 1863 CEIRIOG: *CG* 141, Dilladwyd hi mewn gwrthban, / O eira cynes tew, / A chap a *bordor* llydan, / A startsiwyd gan y rhew. 1995 *GA*, *border(-i, -ydd)* . . . *bordor(-au, -s)* d.g. *border*¹. Ar lafar, 'Ma angen chwynnu'r *border*'; 'Odd *bordar* o frodwaith ar y llian', *GTN* 85 (ll. *borderi*).

(b) *Her*. Dyfais o amgylch tarian yn gyf-ochrog â'i hymyl gyda'i lled bob amser yn bumed ran o'r maes: *bordure* (*in her.*).

16g. (LLEG) *Mos* 158, 217b, Ir y doedd ef ynn dwyn *bordor* o gooch ynnamgyl [*sic*] korff I ysgwytshiw/n. 16g. *Med H* 76, Ef a all y *bordyr* (*Mos* 113, 47, *border*) vod wedi'r bowdrio mewn rruw arveu. *ib.* *bordr* bylchawc o arian a ssabl. 16g. *GGH* 205, A tharged, dosbarth wirgerdd, / O burder aur a *bordr* werdd. *id.* 245, A *bordr* o aur, breuder iaith, / Engreuled mewn gwroliaith. c. 1600 L. DWNN: *HV* i. [11], Or llew saliant G. *bordr* envecyd gwles. 1912 *Beirn* ii. 83, *bordor* liwiedig a berthynai gynt i Somerset a Rismwnt.

Amr.: **bordir** [?'dan ddyl. *tir*] (*eg.*). 15g. *GDLI* [175], Trawstir ar y *bordir* bas, / Tudwedd wely, tid ddulas [i afon Dyfi]. 15g. *GGI*² 152, Y gŵr a'i blant ar Loegr blaid / Rhy'r *bordir* [diwyg.] i'r Herbardiaid. *Div.* 15g. *Pen* 67, 67, llwyn o gaer llion a gaid / llawr *bordir* llv herberdyaid.

bordoraf, **borderiaf**, &c.: **bordori**, **borderio**, &c. [bf. o'r e. *bordor*, *border*, &c.] *bg.a.*

(a) Ffnio, terfynu; cyflenwi â bordor (addurniadol, &c.): *to border*; *provide with a (decorative, &c.) border, hem.*

16g. (*LIEG*) *Mos* 158, 272b, [y] gwladodd Eraill ar a oedd ynn *bordori* ar ymylau avon thannai. *id.* 394b, pais o velued du wedi *bordori* oi hamgylch a brethynn aur. *c.* 1700 E. LHUYD: *Par* ii. 68, Y hyd yw o nant y garreg vraith [*sic*] yn *borderio* ar Lanvor.

(*b*) *Her.* Cyflenwi â *bordor*: *to provide with a bordure (in her.)*.

16g. *Med H* 76, arveu wedi'r *vordrio* neu hemio.

bordr, gw. **bordor**.

bordredig [bôn y f. *bordriaf*²: *bordrio* + *-edig*] *a.bfl.* *Her.* A chanddo forddor unlliw (am arfbais): *bordured, having a uniformly coloured bordure (of coat of arms; in her.)*.

16g. *Med H* 76, arveu wedi'r *vordrio* neu hemio, a'r rrai hynny a elwir *bordyredic* o bydd y *bordyr* neu yr hem yn un lliw trwyddo. **16g.** *Mos* 113, 47, Mae rhai ynn dwyn arfaü *bordyredic* a hwynt a elwir velly o bydd y *bordyr* ynn vn lliw drwyddo.

bordriaf¹: **bordrio**, gw. **bordiaf**: **bordio**.

bordriaf²: **bordrio**, gw. **bordoraf**: **bordori**.

bordwyaf: **bordwyo**, gw. **mordwyaf**, **mordwyo**.

bordyn, gw. **bord**.

bordyr, gw. **bordor**.

bordd, gw. **bord**.

borddwyd [amr. ar *morddwyd*, gydag *m-* a *b-* yn ymgyfnwid, cf. *mainc, bainc*; trafodir yr enghrau. treigledig d.g. *morddwyd*] *eg.* ll. *borddwydydd*. *Morddwyd*, clun: *thigh*.

1737 (1766) *OU* 37, pe baech ond gwybod pa fath gyflwr truenus y mae y rhei'ny ynddo ag y sydd yn ymadael a'r byd hwn heb hawl ym Mab Duw, fe wnai i chwi daro eich *borddwyd*, ac . . . i lefain allan. **18g.** *Llr C* 24, 307, rhag gwayw yn y *borddwydydd* neu yn ystlys y cefn wrth gerdded. *c.* 1762–79 W. WILLIAMS: *P* 87, asgwrn *Borddwyd* ag oedd yn 2 droedfedd a 9 modfedd ei hÿd. **1816** *Hyfforddwr Meddygol* ii. 117, teimlad o bigiad yn y *borddwydydd* a'r coesau. Ar lafar, '*borddwd*' 'a thigh', *GTN* 85 (*eg.*); 'Wi'n dychra tewáu, 'wi ofan; ma'r ffrog 'ma'n timlo'n dynn bothdu 'morddwytydd i', *ib*.

Gw. hefyd **morddwyd**.

bore, borau [H. Grn. *bore(les)*, gl. *consolda*, (*a*)*uorou*, gl. *cras*, Crn. C. (*a*)*vorow* (cf. Cym. *yfory*), Llyd. C. a Diw. *beure*, Gwydd. C. *i mbárach* 'yfory, tra-noeth', Gwydd. Diw. *márach* ? < Clt. **b-ārego-* o drdd. ansicr; a'r ff. *boreu, borau* trwy gamdybio mai ff. lafar oedd *bore*] *eg.* ll. *boreau, boreuau, boreuon*, a hefyd gyda

grym adferfol, ac fel *a.* ac *adf.* Yr amser rhwng canol nos neu doriad gwawr a chanol dydd, toriad gwawr, dechrau'r dydd; yn *ffig.* dechreuad, cychwyniad: *morning, dawn, daybreak; fig. beginning, commencement.*

12g. *GMB* 263, Gna6s etyn adnabod *bore.* **13g.** *C* 92. 15–93. 1, Y *bore* gan las y dit ban kirchuid mug maur treuit. **13g.** (*LIDW*) *ZCP* xx. 53, kadued [yr hydd] hyd hanner dyd heb y blyghyau os *bore* uyd . . . os guedy gosber kadued hyd e *bore.* **1346** *LLA* 6, Y gosper y6 dïoed ypeth aorffenner. ar *bore* y6 y dechreu. **c. 1400** *YCM*² 35, Ac o'r *bore* hyt hanner dyd y gordiwedassant y Sarascinyeit. **c. 1400** *R* 1290. 20, aer veryon lith ar *voreeu.* **1547** *WS*, *Boreu* Moryng. **1567** *TN* 220b, o'r *borae* yd 'osper. **1632** *D*, *Bore* . . . tempus matutinum. **1670** J. HUGHES: *AP* 36, Y *boreuau*; canol dydd, ac ar y cydechwydd pan ganir Cloch Cyfarchiad Mair. **1696** *CDD* 276, Ai fradwŷr bŷw na byddon, / *Foreuon* Têg o Fai. **1732** *AABI* 105, gwasanaethu'r Arglwydd yng Ngwanwyn a *Boreu* eu Dyddiau. **1793** *P*, *Bore*, s. m.—pl. t. *au* . . . The dawn; the morning. **1852** J. T. JONES: *DY* 17, cafodd y ddinas ei breintio â gweinidogaeth yr Efyngyl yn *moreu* Cristionogaeth. **1858** *Y Drysorfa* xxviii. 108, ni a gychwynwn Ysgol Sul, a moddion cyhoeddus hefyd ar *foreuon* Sabbath. Ar lafar, 'codi chwech y bora' 'to get up at six in the morning', *WVBD* 50 (ll. *breua*); 'Wi'n goffod codi'n gynnar ar *foreue* ysgol' (canolbarth Cered.); 'bora' yfryd yn yr 'æf odd 'i', 'en *forua* or yn y gaea', *GTN* 88.

Fel *a.* (a) Yn perthyn i'r bore, cynnar; yn codi'n fore; hefyd yn *ffig.*: *pertaining to the morning, early; early-rising; also fig.*

14g. *T* 42. 5, bran *bore* dewin. **14g.** *DG.net* 42. 3–5, Arch i'r ferch a anerchais / . . . / Ddyfod yfory'n *fore.* **c. 1400** *GM* 30, O'r *bore* bylgein yny vo nos / Gobeithet yr Israel yn yr Arglwyd agos. **15–16g.** *TA* 435, Cnyw a bawr cinio *borau*, / Oedd ddifyr hwnt i ddyfrhau [i ofyn march]. **1547** *WS*, *Bore* ne gynnar o ddydd, Yerly. **1630** *YDd* 246–7, Bydd ofalus . . . i godi yn *foreuach* ar y dydd hwn. **1751** *GIA* 214, cofiwch i ba ddydd [Saboth] o drugareddau yr ydych yn deffroi, a *boreued* y cododd eich Prynwr oddiwrth y meirw y dydd hwnnw. **1771** *PDPH* 63, naill ai rhy hwyr neu yn rhy *fore.* **1793** *P*, *Bore*, a. . . . Early. Mae'n *vore* iawn, it is very early. **19g.** ISLWYN: *Gw* 199, Ann, fy chwaer, sy'n eich nef chwi, / Rhoddwyd nef *fore* iddi. **1924** *Ll* iii. 99, Y llythyr hwn yw'r datganiad *boreaf* a welais i o benderfyniad y Gwyneddigion i gynnal gorseddau. Ar lafar, 'Odd y lori'n *fore* heddi' (canolbarth Cered.); 'Ma isha cwnnu'n *foriach* bora fory', *GTN* 88; 'Chwnast ti ddim yn ddicon *bora* i drechu'r bachan 'yn 'to!', *ib.*

(b) Effro, cyflym, craff, cyfrwys: *awake, quick, sharp, crafty.*

1946 *Y Fflam* i. [3], Hen wreicen go *fore*, ys dywed gwŷr Shir Gâr, oedd Catherine Lloyd (D. J. Williams). Ar lafar yn yr ystyr 'craff', 'We hwn ddigon *bore* 'ddo fe' 'This one was quick enough for him' (godre Cered.); 'Dw i ddim yn fore godwr ond rwy'n *fore* ar ôl codi', M. WILLIAM: *DY* 32 (Dyfed).

Fel *adf.* Yn y bore: *in the morning.*

Proflen hir set 0301xb tudalen II 4 Tachwedd 2011 14:20

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]
FFEL: TOR/0301XB.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

12g. *GCBM* i. 193, Porthes gŵr gŵrtualch yg kyntor / Gwyth uore yn ragre rac yor. **13g.** *C* 31. 8–9, Ny chiuid uore. ny chiueirch. *id.* 57. 15, Na chuste hun bore. **14g.** *T* 10. 26–7, Sadŵrn vore rŵyd. yn gŵnaho ny culŵyd. *c.* **1400** *R* 1046. 38, duhunaf wylaf uore. **1632** *D*, *Bore*, *Mane*. **1740** *T*. EVANS: *LLA* 9, Odfa i gyrchu i Addoliad Duw ar gyhoedd, foreu a phrydnhawn.

Cfn.: **bore afory**, gw. *bore yfory*. **bore'r atgyfodiad**, &c.: *the morning of the resurrection*. **1786** B. FRANCIS: *A* ii. [99], fy mod yn gobeithio y bydd fy ymgniad presennol dros y gwirionedd . . . o leshad parhaus i lawer, wynebaw pa rai ni chaf eu gweled hyd foreu'r adgyfodiad. **1836** *Y Drysorfa* vi. [77], Y mae'r bedd . . . yn wely tawel i'r credadyn i huno'n esmwyth, hyd fore'r adgyfodiad. **y bore bach, bore bach**, &c.: *the crack of dawn, very early morning, also fig.* **16g.** *Pen* 76, 131, byr o beth y bore bach / fv deinioes heb vod anach. **1856** *Seren Gomer* xxxix. 428, rhywbryd yn y boreu bach, elai tua chartref. **1899** *Y Genedl Gymreig*, 14 Chwefror, [6], bu Nat yn gweithio o foreu bach hyd fachlud haul yn yr efail. Ar lafar, 'bore bach' 'early morning' (canolbarth a godre Cered.). **bore fwyd**, gw. *borefwyd*. **bore fyd**, &c., gw. *borefyd*. **bore geisiaf**, &c.: **bore geisio**, &c., gw. *boregeisiaf: boregeisio*. **bore godaf**, &c.: **bore godi**, &c., gw. *boregodaf: boregodi*. **bore godwr**, &c., gw. *boregodwr*. **y bore cyntaf, bore cyntaf**, &c.: *the crack of dawn, first thing in the morning, also fig.* **1749** *An C* 15, *Y Boreu cyntaf* dywed, 'Mi a orweddais ac a gyscrais ac a ddeffrŵais; canys yr Arglwydd am Cynhaliodd'. **1856** ISLWYN: *Gw* 124, *O forau cyntaf* amser gwnaethost hyn. **1936** K. ROBERTS: *TMC* 144, yr oedd Jane Gruffydd wrthi'n golchi er y bore cyntaf. Ar lafar, 'bora cynta' 'the first thing in the morning', *WVBD* 50. **bore da, bore dawch**, &c.: *good morning*. **1725** *SR*, Dydd da i chwi, neu borau da d.g. [*Morrow*] *Good morrow to you*. **1776** *W*, *bore da* d.g. *Morrow, Good morrow*. **1866** *Gwyddon* iv. 657, os bydd genyf finnau ddafad a buwch, dywed pawb, 'Bore dâwch,' wrthyf. **1891** *BAC*, 28 Chwefror, [1], Os dywedant 'boreu dawch' wrth basio, dyna yr oll. Ar lafar, 'bore da', *WVBD* 50; 'bora dæ', *GTN* 88. **bore ddoe**, &c.: *yesterday morning*. **1753** G. OWEN: *L* 50, Dyma fi yn Walton o'r diwedd . . . Mi gyrhaeddais yma bore ddoe. **1849** *Seren Gomer* xxxii. 249, Daeth y Geri Marwol yno ar Mehefin y 10fed, ac o hyny hyd ddeg o'r gloch boreu ddoe, cymmerwyd 93 yn glaf, ac fe fu 71 o honynt farw. Ar lafar, 'bora ddo', *GTN* 88. **bore ddydd**, &c., gw. *boreddydd*. **bore fory**, &c., gw. *bore yfory*. **bore ffair niwl**: *a date which never comes, Greek calends*. Ar lafar yng nghanolbarth Cered. **y bore glas, bore glas**, &c.: *the early morning, dawn, daybreak*. **1346** *LLA* 108, aphan gyneuassant tan yno y bore glas ykyuodes mŵc. **1567** *TN* 128b, y dydd cyntaf o'r wythnos ar y cynddydd, [:- yn vore glas, ar glais y dydd] y daethant ir vonwent. **1604–7** *TW* (*Pen* 228), y *Boreu glas* d.g. *Matutinum*. **1842** *CHW* v. [274], Yr awdwyr hoff, ddarllenwn gyda blâs, / O fachlud haul hyd wawriad boreu glâs. **1888** *SE*, *Bore* . . . sm. . . . *Y bore glas*, the grey morn; the early morning. Ar lafar, 'bora glas' 'dawn', *WVBD* 50. **borau glas y wawr**: *dawn, daybreak, early morning*. *a.* **1791** *W*. WILLIAMS: *GP* 624, Mi bellach goda ma's / Ar foreu glas y wawr. **bore gwaith, bore waith**, &c., gw. *boregwaith*. **bore wawr, y bore wawr, y fore wawr**, &c.: *dawn, daybreak, early morning*. **1621** *E*. PRYS: *Ps* 61, Pe cawn adenydd borau wawr, / a mynd

Proflen hir set 0301xb tudalen 12 4 Tachwedd 2011 14:20

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]

FFEL: TOR/0301XB.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

i for mawr anial. **1764** W. WILLIAMS: *Th* [5], mor aml a gwlith y foreu wawr. **1888** SE, Bore . . . a . . . *Bore wawr* . . . the early dawn; morning light. **1898** *Y Genedl Gymreig*, 9 Awst, 6, Bydd myrdd o ryfeddodau / Ar doriad *bore wawr*. Gw. hefyd *borewawr*. **bore weddi**, &c.: *morning prayer, matins*. **1567** LIGG [xxix], *Boreu weddi*. *id.* 6a, A'r ddau collect ddywethaf ni chyfnawidur vyth, anid ei dywedyt beunydd ar *vorae weddi*. **bore wisg**, &c., gw. *borewisg*. **bore wlith**, &c., gw. *borewlith*. **borau wylwyr**, gw. *borewylwyr*. **y bore gwyn**, **bore gwyn**, &c.: *the early morning, dawn, daybreak*, also *fig.* **1802**. **1856** *Y Drysorfa* xxvi. 409, Ond âf yn awr i ben y bryn, / I syllu ar y *bore gwyn*. **1995** GA, y *bore gwyn* d.g. *dawn*¹. **bore heddiw**, &c.: *this morning*. *c.* **1400** *Ked AA* 6, Yn herwyd itt . . . govyn i mi y *bore hediw* yr hynn yd wyt yn y ovyn yr awr honn. **1751** *GIA* 207, A ddarfu imi ddeffroi y *borau heddyw* megis gyd â Duw . . . ? Ar lafar, 'bora 'eddi', *GTN* 88. Gw. hefyd *heddiw—heddiw'r bore*. **bore a hwyr**, &c.: *morning and evening*. **15g.** *GHC* 23, Dy briodfaeth—hiraethfawr, / Bob *bore a hwyr*, orwyr awr. **1676** W. JONES: *PGG* 47, Gweddi iw harfer mewn Teuluoedd *Borau a Hwyr*. **1813** *WB* 156, [b]erwad y dail [banhallen] . . . yfed hanner peintiaid o hono bob *boreu a hwyr*. Gw. hefyd *hwyr—hwyr a bore*. **bore oes**, **bore ei oes**, &c.: *early stage of life, early life, childhood*, also *fig.* **1810** DAFYDD DDU: *CG* 187, Er gwyro blaguryn, oedd Impyn hardd iawn, / Ar foreu oes wresog, cyn heulog brydnawn ['Marwnad William Jones . . . yr hwn a fu farw . . . ei oed y'nghylch 14, neu 15']. **1837** *Y Gwylhedydd* xiv. 287, [b]od llawer o ddyledsdyddau yn ofynol ym *moreu oes* yr eglwys. **1888** SE, Bore . . . sm. . . . *Bore oes*, the morning of life; early life. **1931** H. EVANS: *CE* 56, [t]reulio darn o *fore f'oes* mewn rhan o Gwm Eithin lle nad oedd llawer o briciau. Ar lafar, 'ym *mora 'i oes*' 'in his young days', *WVBD* 50. **bore bryd**, &c., gw. *bore-bryd*. **bore trannoeth**, **y bore drannoeth**, &c.: *the following morning*. **13g.** *BD* 174, A'r *bore trannoeth* kychuyn a oruc y Brytannyeit a'r carcharoryon. *c.* **1400** *YCM*² 8, A phan yttoed y *boreu drannoeth* yn datkanu y bawp a glywyssei . . . nachaf . . . gawr o'r awyr am y benn. **1771** *PDPH* 60, rhoddwch ddwfr twymn iddo [ceffyl] i'w yfed y nos honno a'r *bore drannoeth*. **1853** *Y Diwygiwr* xviii. 215, *Borau tranoeth*, daeth gwraig dylawd, ac amryw blant bach gyda hi, i geisio elusen. **1939** E. P. MORGAN: *WS* 192, Câl Mali hanes y cyfarfodydd hyn o bant i bentan *bore trannoeth*. **bore yfory**, **bore afory**, &c.: *tomorrow morning*. *c.* **1400** [RB] *WM* 500. 28–9, Ar *bore auory* y kychōynnōn ni odyma. **1776** W, Y *bore 'foru* d.g. *Morrow, To-morrow morning*. **1850** *Traeth* vi. 516, Anfonaf ato i ddyfod â'i gyfrifon yma y *boreu yfory*. Ar lafar, 'bora *fory*', *WVBD* 50; 'bora *fory*', *GTN* 88. **ar y bore**: *very early in the morning*. **1952**. Ar lafar, 'Fe ath yn barti hwyr iawn ac rodd hi *ar y bore* arno fe'n dod adre' (gogledd Cered.); 'Daw'r Western Mail trwy'r drws *ar y bore*, cyn i mi fwyta brecwast' (godre Cered.); 'Fuodd hi farw *ar y bore*' (gogledd sir Gaerf.). **o'r bore gwyn tan nos**, **o fore gwyn hyd nos**, &c.: *from dawn till dusk, all day long*. **1854**. **1863** *Y Brython* v. 438, Pa reswm dal ebol tri hanner blwydd, a'i rwymo wrth y car llusg o'r *boreu gwyn hyd y nos*? **1931** H. EVANS: *CE* 44, byddai [y forwyn] ar drot o'r *bore gwyn tan nos*. Ar lafar, 'o *fora gwyn dan nos*' 'from morning till night', *WVBD* 50. **ym more**, **yn fore**, **yn forau**: *in the morning, early, also fig.* **13g.** *A* 17. 20, Moch dwyreawc y *more*.

Proflen hir set 0301xb tudalen 13 4 Tachwedd 2011 14:20

[Rhaglen feysydd GPC fersiwn 5.75 (IBM)] [Rhaglen hollti GPC fersiwn 3.03] [Rhaglen PostScript GPC fersiwn 1.25]
FFEL: TOR/0301XB.TOR Dychweler at: Y Golygydd, Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH

1551 W. SALESBURY: *KLI* [xl]b, aeth Mair Magdalen *yn voreu . . . i'r vonwent*. **1770** W, *Yn fore* d.g. *Betimes, or betimes in the morning*. **1925** J. MORRIS-JONES: *CD* 358, Fe genid cyhydedd naw ban yn benillion dau gwpled *yn fore*. Ar lafar, "Ôs gin' i ginnig i gwnnu'n fora", *GTN* 88. **yn fore fore**, &c.: *very early in the morning*. **1810** DAFYDD DDU: *CG* 95, *Messeiah ganwyd, megys gynau, / O'r Forwyn Fair, yn forau, forau!* **1995** *GA*, *yn fore fore* d.g. *early . . . very early, morning . . . early in the morning*. Ar lafar.